

Prawf Alergedd Penisilin

Taflen Wybodaeth i Gleifion

Cyflwyniad

Mae'r daflen hon yn dweud wrthyfch:

- beth yw penisilin;
- beth yw alergedd i benisilin; a
- sut i ddarganfod a oes gennych alergedd i benisilin.

Beth yw penisilin?

Mae penisilin yn fath o wrthfotig. Mae'n gweithio'n dda iawn i drin heintiau bacterol cyffredin fel niwmonia, tonsilitis a heintiau'r croen.

Beth yw alergedd i benisilin?

Alergedd yw adwaith gan system imiwnedd eich corff. Gall y system imiwnedd adweithio i benisilin neu i fath arall o wrthfotig penisilin. I'r rhan fwyaf o bobl, mae'r adwaith alergaidd yn adwaith ysgafn ar y croen neu'n frech sy'n datblygu'n araf sawl awr neu ddiwrnod ar ôl cymryd penisilin.

Weithiau gall adwaith alergaidd difrifol o'r enw anaffylacsis ddigwydd. Mae hyn yn anghyffredin iawn ond gall fygwth bywyd. Mae symptomau anaffylacsis yn cynnwys brech sy'n lledaenu'n gyflym, chwyddo yn y geg, y gwddf neu'r tafod, ac anawsterau anadlu. Bydd y symptomau hyn yn aml yn digwydd lai nag awr ar ôl cymryd penisilin, a bob amser o fewn dwy awr i gymryd penisilin.

A all aelod o'r teulu fod ag alergedd i benisilin?

Nid yw alergedd penisilin yn rhedeg mewn teuluoedd, felly os oes gennych berthynas sydd ag alergedd iddo, nid oes unrhyw reswm i feddwl y byddwch chi hefyd ag alergedd iddo.

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng alergedd a sgil-ffeithiau?

Sgil-ffeithiau yw'r rhan fwyaf o adweithiau i benisilin, nid alergeddau. Yn bennaf, sgil-ffeithiau yw effeithiau ysgafn a byr y driniaeth. Mae sgil-ffeithiau mwyaf cyffredin penisilin yn cynnwys: brech ar y croen, chwydu, teimlo eich bod eisiau chwydu, neu ddolur rhydd. Yn wahanol i alergeddau, ni ddylai sgil-ffeithiau penisilin eich atal rhag cymryd penisilin eto o reidrwydd. Gellir rhoi meddyginiaeth i'ch helpu i reoli sgil-ffeithiau os oes angen, er mwyn sicrhau y gallwch dderbyn penisilin yn y dyfodol.

Pam mae penisilin yn bwysig?

Gall penisilin weithio'n well na mathau eraill o wrthfotigau i drin heintiau bacterol. Mae gwybod a oes gennych alergedd i benisilin yn bwysig, er mwyn sicrhau eich bod yn cael y gwrthfotig gorau i chi.

Pa mor gyffredin yw alergedd i benisilin?

Mae tua 1 o bob 10 o bobl yn dweud bod ganddynt alergedd i benisilin. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn awgrymu ei bod yn bosibl bod mwy na 9 o bob 10 o bobl

sy'n adrodd am alergedd i benisilin **heb** alergedd iddo mewn gwirionedd; efallai eu bod ond wedi cael sgil-ffeithiau o gymryd penisilin.

Pam mae angen i ni brofi pobl am alergedd i benisilin?

Mae tua 9 o bob 10 o bobl sydd â chofnod o alergedd i benisilin yn darganfod nad oes ganddynt alergedd iddo mewn gwirionedd pan gânt eu profi. Er y gallech fod wedi profi sgil-ffeithiau ar ôl cymryd penisilin, mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn diflannu dros amser. Mae hyn yn golygu y gall y rhan fwyaf o bobl gymryd penisilin yn ddiogel, gan roi mwy o opsiynau ar gyfer gwrthfotigau i drin heintiau bacterol.

Pam ydw i'n cael cynnig prawf ar gyfer alergedd i benisilin?

Cynigir y prawf hwn i chi oherwydd bod eich cofnod iechyd yn nodi bod gennych alergedd i benisilin, ac mae'r tîm meddygol wedi asesu ei bod yn ddiogel i chi wneud y prawf. Mae gwneud y prawf pan fyddwch yn yr ysbyty yn golygu y gallwch gael eich monitro'n ddiogel a chael triniaeth os oes angen pan fyddwch yn cael y prawf.

Beth yw manteision profi?

Os cewch y prawf a bod y canlyniadau'n dangos nad oes gennych alergedd i benisilin, yna byddwn yn diweddarau eich cofnod meddygol i gywiro eich statws alergedd, a byddwch yn gallu cymryd gwrthfotigau penisilin yn y dyfodol. Bydd hyn yn rhoi mwy o opsiynau i chi ar gyfer trin amrywiaeth o heintiau bacterol cyffredin, fel heintiau'r croen neu'r frest, neu os oes angen i chi gymryd gwrthfotigau cyn llawdriniaeth.

Sut mae'r prawf yn cael ei wneud?

Byddwn yn gofyn i chi lofnodi ffurflen ganiatâd cyn y prawf, i gadarnhau eich bod yn deall beth mae'r prawf yn ei olygu, ac unrhyw risgiau a sgil-ffeithiau posibl. Byddwch yn gallu gofyn unrhyw gwestiynau a allai fod gennych i'r tîm meddygol. Mae'r prawf yn golygu cymryd un capsawl o amoxicillin, gwrthfotig penisilin. Byddwn yn eich monitro'n ofalus am unrhyw adweithiau alergaidd a sgil-ffeithiau eraill.

Beth yw'r risgiau a'r sgil-ffeithiau posibl?

Mae sgil-ffeithiau fel arfer yn ysgafn, fel teimlo eich bod eisiau chwydu. Mae risg fach y gallech brofi adwaith alergaidd, a dyna pam rydym yn gwneud y prawf mewn ysbyty. Bydd tua 1 o bob 20 o bobl yn cael brech sy'n cosi am sawl awr neu ddiwrnod. Gall adwaith mwy difrifol, gan gynnwys anaffylaxis, ddigwydd ond mae'n anghyffredin iawn. Dim ond i bobl yr ydym yn eu hystyried sydd â risg isel iawn o adwaith alergaidd y byddem yn cynnig y prawf hwn. Os cewch adwaith alergaidd, byddwn yn rhoi triniaeth i chi ar unwaith gyda meddyginiaethau gwrth-alergedd i'w atal.

Beth sy'n digwydd ar ôl y prawf?

Bydd y tîm gofal iechyd yn esbonio canlyniad y prawf i chi. Byddwch hefyd yn cael copi o ganlyniadau'r profion. Os bydd y prawf yn dangos nad oes gennych adwaith alergaidd i benisilin, byddwch wedyn yn gallu cymryd gwrthfotigau penisilin os bydd eu hangen arnoch. Byddwn yn diweddarau eich cofnod meddygol ac yn ysgrifennu at eich meddyg teulu i ddweud wrthynt am ganlyniadau'r prawf.

Os bydd y prawf yn cadarnhau bod gennych alergedd i benisilin, bydd eich cofnod meddygol yn parhau i nodi hyn, ac ni ddylech gymryd gwrthfotigau penisilin yn y

dyfodol. Byddwn hefyd yn dweud wrth eich meddyg teulu am ganlyniad eich prawf. Byddwch yn cael cerdyn alergedd, cadwch eich cerdyn gyda chi bob amser.

Os oes gennych rai symptomau ar ôl y prawf ac nid yw'n glir a ydych wedi cael adwaith alergaidd, gall y tîm sy'n gofalu amdanoch eich cyfeirio at arbenigwr i gael asesiad pellach.

A oes angen i mi wneud y prawf os caiff ei argymhell?

Mae cymryd y prawf hwn yn wirfoddol. Os byddwch yn dewis peidio â chael y prawf, ni fydd unrhyw newid i'r driniaeth a gewch tra yn yr ysbyty. Gallwch chi newid eich meddwl am gael y prawf unrhyw bryd.

Beth fyddwch chi'n ei wneud gyda'r wybodaeth am ganlyniadau fy mhrawf?

Mae llawer o astudiaethau wedi dangos bod profi ar gyfer alergedd i benisilin yn y modd hwn yn ffordd ddiogel o dynnu labeli alergedd penisilin o gofnodion cleifion. Fodd bynnag, gan fod hwn yn wasanaeth newydd mae'n bwysig ein bod yn casglu gwybodaeth am ganlyniadau'r prawf. Bydd hyn yn galluogi'r tîm gofal iechyd i fonitro effeithiolrwydd y broses profi. Bydd eich holl fanylion personol, neu wybodaeth a allai eich adnabod, yn cael eu tynnu o'r canlyniadau a welant.

Os byddwch yn datblygu brech neu unrhyw adwaith arall sy'n peri pryder ar ôl cael eich rhyddhau o'r ysbyty, cysylltwch â ni

(INSERT APPROPRIATE LOCAL CONTACT)